| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 1 Mai 2002 |
| **Lleoliad:** | Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Canllawiau i awdurdodau lleol ar godi tâl am ofal yn y cartref |

## Diben

1. Trwy gyfrwng y papur hwn, rwyf yn ceisio barn y Pwyllgor am y canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol a fydd yn ceisio sicrhau polisïau tecach o ran codi tâl am ofal yn y cartref a gwasanaethau cymdeithasol eraill nad ydynt yn wasanaethau preswyl. Ceir copi o'r canllawiau drafft yn Atodiad A.

## Y Cefndir

2. O dan Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983, y mae gan gynghorau ryddid i ddewis pa system y maent yn ei defnyddio (os ydynt yn defnyddio un o gwbl) i godi tâl am wasanaethau i oedolion heblaw am wasanaethau preswyl, er enghraifft gofal yn y cartref, gofal dydd a gofal seibiant, gwasanaethau pryd-ar-glud ac ati. O fewn y rhyddid hwn, rhaid i'r tâl am y gwasanaeth fod yn rhesymol ac os yw defnyddiwr yn argyhoeddi'r cyngor nad oes ganddo/ganddi ddigon o fodd i dalu, ni ofynnir iddynt dalu mwy na'r hyn sy'n rhesymol iddynt.

3. Mae pob awdurdod yng Nghymru wedi cyflwyno systemau codi tâl am wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau preswyl, ond fel yn achos awdurdodau lleol yng ngweddill Prydain, ceir amrywiadau mawr yn yr hyn a godir. Mae hyn wedi bod yn destun pryder ers rhai blynyddoedd. Mae adroddiad y Comisiwn Archwilio 'Charging with Care' yn awgrymu y codir rhwng £20 a £80 yr wythnos o dâl yng Nghymru am yr un gwasanaethau. Mae'r amrywiadau mewn taliadau wedi'u cadarnhau gan waith a wnaed gan RNIB Cymru, ac fe'i cadarnhawyd hefyd gan waith ymchwil a gomisiynais oddi wrth Brifysgol Cymru Abertawe.

4. Mae'r graddau yr ystyrir budd-daliadau nawdd cymdeithasol y defnyddwyr wrth gyfrifo'r tâl sydd i'w godi hefyd wedi bod yn fater o ddiddordeb. Ychwanegwyd elfen arall at y ddadl pan gyflwynwyd budd-daliadau anabledd newydd yn y 1980au a'r 1990au cynnar, yn enwedig y Lwfans Presenoldeb a'r Lwfans Byw i'r Anabl, wrth i lawer o gynghorau ystyried y budd-daliadau fel incwm wrth gyfrifo'r tâl sydd i'w

godi.

5. Ers i'r cynghorau feddu ar y rhyddid i godi tâl, mae'r symiau a godir wedi cynyddu'n raddol mewn termau absoliwt yn ogystal ag fel canran o gost y gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r cynghorau'n codi tua £18 miliwn y flwyddyn mewn taliadau am ofal yn y cartref, gan adennill 10% o gost y gwasanaeth, ar gyfartaledd.

6. Mabwysiadodd y Cynulliad bwerau o dan adran 112 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 er mwyn caniatáu iddo gyhoeddi canllawiau statudol o dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 ynghylch codi tâl am wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau preswyl. Serch hynny, tra bo'r pwerau hyn yn caniatáu i'r Cynulliad sefydlu egwyddorion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth bennu eu taliadau, y mae'n dal i roi rhyddid sylweddol i'r awdurdodau bennu eu taliadau. Er enghraifft, o dan y pwerau hyn, ni allai'r Cynulliad orfodi rhestr genedlaethol o'r taliadau sydd i'w codi. Serch hynny, byddai perygl i'r awdurdodau lleol gael eu herio'n gyfreithiol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, pe gellid dangos eu bod wedi methu ag ystyried y canllawiau wrth bennu eu trefniadau codi tâl.

**Crynodeb/Argymhellion**

7. Cyhoeddais ganllawiau drafft at ddibenion ymgynghori o 15 Chwefror 2001 tan 29 Mehefin 2001. Ceir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad B. Hefyd, comisiynais ymchwil bellach ynghylch y polisïau codi tâl am wasanaethau gofal nad ydynt yn wasanaethau preswyl yng Nghymru, er mwyn ategu astudiaeth y Comisiwn Archwilio. Cyhoeddwyd yr ymchwil hwn ym mis Tachwedd 2001. Ceir copïau o'r adroddiad *Charging for Care in Wales – A Study of Local Authority Domiciliary Care Charging Policies* yn llyfrgelloedd y Cynulliad, neu oddi wrth yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol 3 (ffôn: 029 2082 5191 e-bost: nicholette.martin@wales.gsi.gov.uk). Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yn Atodiad C.

8. Yn ystod hynt y Mesur Safonau Gofal trwy'r Senedd, rhoddwyd sicrhad nad yw'n fwriad cael gwared ar yr holl amrywiadau a geir rhwng polisïau codi tâl awdurdodau lleol. Mae cynghorau'n cadw'r rhyddid i ddewis peidio â chodi tâl am wasanaethau cymdeithasol nad ydynt yn wasanaethau preswyl, a dylent barhau i feddu ar ryddid sylweddol i lunio eu polisïau codi tâl. Felly, mae'r canllawiau hyn yn nodi fframwaith fras er mwyn sicrhau safonau gofynnol o ran tegwch a chysondeb o fewn amcanion cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol.

9. Oherwydd bod cynghorau'n cadw cyfrifoldebau a rhyddid sylweddol o ran eu polisïau codi tâl, y mae'n bwysig rhoi'r flaenoriaeth briodol i'r prosesau allweddol, gan gynnwys ymgynghori, cyfathrebu â defnyddwyr, a chynnal adolygiadau. Mae'r canllawiau yn cynnwys cyngor ar y materion hyn.

10. Gellir amlinellu fy nghynigion ar gyfer y canllawiau terfynol fel a ganlyn:

<u>Cymhorthdal Incwm ac effeithiau taliadau ar incwm y defnyddiwr</u>

11. Ni ddylai taliadau a godir ar ddefnyddwyr y gwasanaethau olygu bod eu hincwm yn is na lefelau syflaenol Cymhorthdal Incwm. Dylai'r egwyddor hon fod yn berthnasol p'un a ydyw'r defnyddwyr yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu beidio. Mae "lefelau sylfaenol" Cymhorthdal Incwm wedi'u diffinio, ac eithrio'r Premiwm Anabledd Difrifol. Rwy'n cynnig y dylid pennu lefel ddiogelu o 25% uwch ben lefelau sylfaenol Cymhorthdal Incwm, a'i gwneud yn ofynnol na ddylai'r taliadau a godir ar ddefnyddwyr olygu bod eu hincwm yn is na'r lefel hwnnw.

12. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi na fyddai'n dderbyniol cyflwyno polisïau i godi tâl unffurf ar bob defnyddiwr, ond mae ychydig o eithriadau.

Darparu cyngor ynghylch budd-daliadau

13. Dylai cynghorau ddarparu cyngor priodol ynghylch budd-daliadau i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau gofal nad ydynt yn wasanaethau preswyl.

Cynilion a Chyfalaf

14. Man lleiaf, dylai awdurdodau lleol ddilyn yr un terfynau cynilion â'r rheini ar gyfer gofal preswyl, ac eithrio gwerth cartref y defnyddiwr, gan ddilyn y rheolau a geir yn y ddogfen Charges for Residential Accomodation Guidance (CRAG). Gellir cyfrif incwm tariff (ar gyfradd lle rhagdybir £1 o incwm y flwyddyn am bob £250 o gyfalaf) ar gyfer cynilion sydd rhwng y terfynau presennol o £11,750 ac £19,000. Gellir gofyn i ddefnyddwyr sydd â mwy na £19,000 o gynilion dalu'r tâl uchaf.

Incwm a Chynilion Partneriaid

15. Mae'r canllawiau yn nodi'r sefyllfa a'r amgylchiadau cyfreithiol presennol mewn achosion lle y gellir ystyried adnoddau ariannol partner o dan adran 17 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983. Mae'r canllawiau hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y gallai fod yn fanteisiol i ddefnyddwyr gael eu hasesu ar y cyd â'u partneriaid, mewn rhai achosion. Er enghraifft, mewn achos lle byddai'r tâl a aseswyd ar gyfer y defnyddiwr unigol yn golygu y bydd incwm yr unigolyn a'r partner fel cwpwl yn gostwng islaw'r lefel ddiogelu o 25% uwch ben lefelau sylfaenol Cymhorthdal Incwm, dylid cynnal yr asesiad ar gyfer y cartref cyfan, trwy ystyried adnoddau a gwariant y cwpwl, fel sy'n briodol.

Cymelldaliadau Gwaith

16. Er mwyn trin enillion am waith yn fwy hael na mathau eraill o incwm, dylid eithrio enillion o'r fath yn llwyr o'r asesiad.

Ystyried Budd-daliadau Anabledd

17. Roedd y cynnig yn y papur ymgynghori yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gynnal asesiad o wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd, pe baent yn penderfynu ystyried budd-daliadau Cymhorthdal Incwm fel y Lwfans Byw Anabledd (DLA), y Lwfans Presenoldeb (AA) a'r Premiwm Anabledd Difrifol (SDP) wrth gyfrifo'r tâl sydd i'w godi. Serch hynny, byddai hyn yn golygu y byddai angen cynnal prawf moddion llawer mwy manwl na'r profion y mae cynghorau'n eu cynnal ar hyn o bryd, a byddai'n golygu y byddai angen canllawiau cryfach a chadarnach ynghylch asesu gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd. Un mater i'w ystyried yma yw gallu cynghorau i newid eu polisïau codi tâl yn sylfaenol o fewn amser rhesymol.

18. Dangosodd y gwaith ymchwil bod amrywiadau cymhleth ledled Cymru yn y modd y caiff defnyddwyr y gwasanaeth eu trin os ydynt yn gymwys am gyfraddau uwch ac is y Lwfans Presenoldeb (AA) a'r Lwfans Byw Anabledd (DLA) neu'r Premiwm Anabledd Difrifol (SDP). Wrth asesu incwm y cleient, nid oedd rhai cynghorau yn ystyried AA, neu nid oeddent yn codi tâl ar y rheini sy'n hawlio AA. Roedd rhai yn diystyru cyfradd is AA, ond yn codi tâl ar y rheini sydd ar y gyfradd uwch, tra bo eraill yn cynnwys holl AA neu DLA yr unigolyn yn yr asesiad ariannol.

19. Yng ngoleuni'r darlun hwn a'r ymatebion i'r ymgynghori, deuthum i'r casgliad nad oedd y cynnig yn y papur ymgynghori yn fodd derbyniol o fynd ati i gynnal yr asesiad ariannol. Felly, rwyf bellach yn bwriadu mynd ar drywydd y syniad o ddiystyru symiau penodol o wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd, mewn rhyw fodd neu'i gilydd, gan ganiatáu i ddefnyddwyr ofyn am adolygiad os ydynt o'r farn bod y gwariant sy'n gysylltiedig â'u hanabledd yn uwch na'r swm a gaiff ei ddiystyru wrth gyfrifo'r tâl. Mewn llawer o achosion, rwyf yn gobeithio y bydd hyn yn osgoi'r angen am brawf moddion manwl ac ymwthiol o wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith hwn, byddaf yn sefydlu gweithgor a fydd yn cynnwys aelodau o awdurdodau lleol a grwpiau defnyddwyr er mwyn ystyried syniadau a gwneud gwaith ychwanegol i bennu'r symiau priodol o wariant anabledd y dylid eu diystyru wrth gyfrifo'r tâl. Er y bydd hyn yn golygu y bydd oedi cyn cyhoeddi'r ddogfen derfynol, bydd yn dal yn bosibl cyhoeddi'r rhan fwyaf o'r canllawiau, fel y gall cynghorau ddechrau adolygu a gweithredu eu systemau codi tâl, a bydd yn dangos yn glir beth yw ein bwriad o ran ystyried gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd.

20. Law yn llaw â hyn, rwyf wedi gofyn i swyddogion asesu'r costau a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig ag eithrio pawb sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm o'r taliadau, gan gynnwys y rheini sy'n derbyn budd-daliadau anabledd. Bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried y costau cysylltiedig unwaith y byddai'r egwyddor hon wedi'i sefydlu, ynghyd â blaenoriaethau eraill o ran gwariant, a sut orau y gellid defnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Serch hynny, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig i ni ystyried goblygiadau a chostau'r fath newid yn fwy cynhwysfawr ac yng nghyd-destun ehangach y polisïau a'r blaenoriaethau ar gyfer pobl hawdd eu niweidio yng Nghymru.

21. Oherwydd y byddwn yn ystyried opsiynau na chynhwyswyd mohonynt yn y papur ymgynghori gwreiddiol ynghylch gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd, ceir rhagor o ymgynghori gydag awdurdodau lleol a defnyddwyr, cyn gynted ag y bydd y gweithgor wedi cwblhau ei waith.

**Yr amserlen**

22. Bydd angen sawl mis ar gynghorau i ystyried goblygiadau'r canllawiau i'w trefniadau presennol o ran codi tâl, i ymgynghori'n lleol â chynrychiolwyr defnyddwyr y gwasanaethau ynghylch y newidiadau arfaethedig, i ystyried y goblygiadau i'r gyllideb ac i roi rhybudd ynghylch y newidiadau. Rwyf yn cynnig yr amserlen ganlynol ar gyfer cyhoeddi canllawiau'r Cynulliad, ac ar gyfer bwrw ati â gwaith pellach ar wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd.

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi'r canllawiau, gan nodi'r bwriad i gynnwys symiau pendol i'w distyru mewn perthynas â gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd | erbyn 31 Mai |
| Gweithgor ar wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd | Mai-Mehefin |
| Ymgynghori pellach | Gorffennaf-Awst |
| Canllawiau pellach ar fater y symiau sydd i'w diystyru | erbyn 30 Medi |
| Rhoi'r canllawiau llawn ar waith | Ebrill 2003 |

**Materion i'w Hystyried**

23. Mae hwn yn faes dadleuol heb unrhyw atebion hawdd. Yn gyffredinol, bydd defnyddwyr a'r sefydliadau sy'n eu cynrychychioli yn dueddol o ddadlau y dylai pob maeth o ofal personol, gan gynnwys gofal yn nghartref y person ei hun, fod am ddim. Hyd yn oed lle derbynnir yr egwyddor o godi tâl, ceir pwysau i wneud y systemau codi tâl yn fwy hael na'r rheini sydd ar waith ar hyn o bryd.

24. Mae cynghorau yn pryderu ynghylch cost unrhyw newidiadau a fydd yn arwain at sefyllfa lle byddent yn cael llai o incwm o daliadau, a rhagor o faich gweinyddol, yn enwedig os yr ymestynir y profion moddion yn sylweddol. Serch hynny, ceir cytundeb ar y cyfan bod angen atgyfnerthu'r canllawiau er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru.

25. Mae'r canllawiau arfaethedig yn Atodiad A yn nodi fframwaith fras i helpu cynghorau i sicrhau bod eu polisïau codi tâl yn deg, a'u bod yn cael eu gweithredu yn gyson â'u hamcanion cyffredinol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r canllawiau'n darparu amcanion clir y dylai pob cyngor sy'n gweithredu polisïau codi tâl eu cyflawni. Y mae hefyd yn cyflwyno ystyriaeth fwy hael ar gyfer llawer o ddefnyddwyr trwy bennu lefel ddiogelu incwm o 25% uwch ben lefelau sylfaenol y Cymhorthdal Incwm; lefelau isaf o gynilion, sy'n debyg i'r rheini ar gyfer pobl mewn cartrefi gofal; ac y mae'n diystyru'n llwyr unrhyw enillion am waith. Mae'r dull hwn o fynd ati yn gydnaws â datganiad Llywodraeth Cynulliad Cymru "Rhyddid a Chyfrifoldeb" (paragraffau 11.15 ac 11.16) ynghylch yr angen i leihau'r amrywiadau mewn systemau codi tâl am wasanaethau gorfodol.

26. Serch hynny, nid yw'r canllawiau yn rhagdybio y bydd pob cyngor yn codi tâl. Mewn achosion lle maent yn penderfynu codi tâl am wasanaethau, maent hefyd yn cadw rhyddid sylweddol i bennu'r polisïau codi tâl. Nid oes unrhyw beth yn y canllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau wneud polisïau codi tâl sy'n bodoli eisoes, sy'n mynd yn bellach na'r gofynion a nodir yn y canllawiau, yn llai hael i ddefnyddwyr nag y maent ar hyn o bryd. Bwriad y canllawiau yw gwneud systemau codi tâl yn decach a sicrhau eu bod yn gweithredu yn ôl egwyddorion mwy cyson, nid cyfyngu ar yr incwm cyffredinol a ddaw o daliadau.

**Goblygiadau Ariannol**

27. Disgwylir i'r canllawiau yn Atodiad A fod yn weddol niwtral o ran eu heffeithiau ar gyllid awdurdodau lleol. Er enghraifft, lle mae'r lefel ddiogelu o 25% ar ben Cymhorthdal Incwm yn arwain at gost ychwanegol i awdurdod lleol, mae ganddo gyfle i adennill yr incwm hwnnw rywle arall yn ei drefniadau codi tâl. Serch hynny, fel y nodir ym mharagraff 20 uchod, gallai trefniant i ddiystyru gwariant/incwm sy'n gysylltiedig ag anabledd arwain at gostau sylweddol ac, os y byddwn yn bwrw ati â'r fath gynigion, byddai angen ystyried y costau hynny yng nghylch cynllunio'r Gyllideb.

**Cydymffurfio**

28. Mae'r pwerau y gall Gweinidogion eu harfer o dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad a'u dirprwyo i mi. Nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Camau i'w cymryd gan y pwyllgor pwnc**

29. Cyflwyno sylwadau am y canllawiau arfaethedig.

**Enw cyswllt**

30. Andrew Powell-Chandler, Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol 3.